CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

Adroddiad ar Fesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008

Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn datgan:

> *14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*
>
> *(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

Ystyriaeth

2. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i Fesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008 yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2008.

3. Cyflwynwyd y Mesur arfaethedig i'r pwyllgor gan Jenny Randerson AC, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a gynrychiolwyd gan:

- Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth;
- Daisy Seabourne, Swyddog Polisi, Dysgu Gydol Oes;
- Teresa Filipponi, Cydgysylltydd Bwyd mewn Ysgolion

Yr adroddiad

4. Mae'r tabl yn yr Atodiad yn rhoi crynodeb o oblygiadau'r costau a fyddai'n deillio'n uniongyrchol o'r Mesur arfaethedig.

5. Dywedodd Jenny Randerson wrth y pwyllgor[1] mai nod y Mesur Arfaethedig oedd gweithio mewn cytgord â rhaglen 'Blas am Oes' y Llywodraeth, sy'n ceisio hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion. Diben cyflwyno'r ddeddfwriaeth oedd sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu dilyn yn sgil y rhaglen 'Blas am Oes', a hynny ym mhob ysgol drwy Gymru.

6. Yn ei hanfod, mae'r ddeddfwriaeth yn creu polisi holistig ar gyfer y gwaith y mae'r Llywodraeth eisoes yn ei wneud[2]. Dywedodd Jenny Randerson y byddai'r ddeddfwriaeth yn rhoi hyblygrwydd i'r Gweinidog adeiladu ar y prosiectau peilot sydd eisoes yn bodoli. Am y rheswm hwn, nid oedd dyddiad cychwyn wedi'i gynnwys yn y Mesur arfaethedig[3].

---

[1] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 12 Mehefin 2008, paragraff 6
[2] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 12 Mehefin 2008, paragraff 8
[3] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 12 Mehefin 2008, paragraffau 8, 11

7. Pwysleisiodd Jenny Randerson[4] mai'r Llywodraeth fyddai'n talu'r costau craidd o dan y polisi 'Blas am Oes', a hynny os bydd y Mesur Arfaethedig yn cael ei basio neu beidio. O ganlyniad, byddai'r costau sy'n deillio'n uniongyrchol o'r Mesur arfaethedig yn isel iawn. Byddai'n cynnwys gwariant ar y canlynol:

   - 'adroddiadau' y dylid talu amdanynt o'r adnoddau presennol;
   - gwaith 'hyrwyddo' a ddylai adeiladu ar y gwaith presennol ond a fyddai efallai'n golygu rhywfaint o fân gostau i'r Llywodraeth;
   - archwiliadau – amcangyfrifwyd y byddai hyn yn costio rhwng £100,000 a £250,000 y flwyddyn;
   - darparu dŵr yfed am ddim gan wella'r ddarpariaeth bresennol – amcangyfrifwyd y byddai hyn yn costio tua £900,000.

8. Amcangyfrifodd Jenny Randerson y byddai cyfanswm y costau ychwanegol tua dwy filiwn o bunnoedd[5].

9. Dywedodd CLILC[6] fod y gymdeithas yn cytuno ar yr egwyddorion a'r syniadaeth sy'n sail i'r Mesur arfaethedig ac nad oedd ganddi unrhyw wrthwynebiad cryf i gynnwys y Mesur. Fodd bynnag, ym marn y gymdeithas, y broses 'Blas am Oes' oedd y ffordd orau ymlaen. Roedd gan y gymdeithas bryderon am y baich gweinyddol a biwrocrataidd a fyddai'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig a'r posibilrwydd y byddai'r costau'n cynyddu.

Casgliad

10. Mae'r pwyllgor yn ymwybodol nad yw'r Mesur Arfaethedig yn ceisio newid polisïau'r Llywodraeth o ran bwyta'n iach mewn ysgolion, ond yn hytrach ei fod yn ceisio creu dulliau o roi sail statudol iddynt. Ym marn y rhai sy'n hyrwyddo'r Mesur arfaethedig, byddai hyn yn sicrhau bod y polisïau'n cael eu rhoi ar waith yn fwy effeithiol.

11. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn gweld unrhyw reswm dros anghytuno â'r amcangyfrif o 'tua dwy filiwn o bunnoedd' ar gyfer costau'r systemau gweinyddol a fyddai'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig.

12. Mae'r pwyllgor yn ymwybodol y byddai costau gwella lefelau maeth mewn ysgolion yn cyfateb i gostau polisi 'Blas am Oes' y Llywodraeth. Os bydd y Mesur Arfaethedig yn achosi i'r gwelliannau hyn gael eu cyflwyno'n gynt, efallai y bydd yr amserlen o ran y costau'n newid. Ond mae'r pwyllgor yn ymwybodol hefyd bod y Mesur Arfaethedig yn rhoi hyblygrwydd i'r Gweinidog o ran sut a phryd y caiff ei roi ar waith.

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

[4] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 12 Mehefin 2008, paragraff 14
[5] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 12 Mehefin 2008, paragraff 45
[6] Cofnod y Trafodion, cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 12 Mehefin 2008, paragraff 58

Tabl 1: Crynodeb o oblygiadau'r costau a fyddai'n deillio'n uniongyrchol o'r Mesur Arfaethedig

Disgrifiad o'r ddyletswydd	**Effaith**
Hyrwyddo Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (adran 1)	Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi argymell y dylid gwneud llawer o waith hyrwyddo ar y dechrau fel rhan o'r polisïau a'r *Cynllun Gweithredu Blas am Oes.* Mae'r costau hyn eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllidebau presennol Llywodraeth y Cynulliad. Disgwylir hefyd y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn datblygu dulliau creadigol o hyrwyddo bwyta'n iach, a fydd yn golygu mân gostau'n unig neu arbedion.
Dyletswydd ar Weinidogion Cymru o ran y cwricwlwm (adran 2)	Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yng nghyllidebau presennol Llywodraeth y Cynulliad.
Dyletswydd ar gyrff llywodraethu i gyflwyno adroddiadau (adran 4)	Ni ddylai'r ddyletswydd ar gyrff llywodraethu fod yn feichus, gan ei bod wedi'i chynnwys yn y strwythurau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau.
Swyddogaethau'r Prif Arolygydd Ysgolion (adran 5)	Amcangyfrifir bod Estyn wedi neilltuo rhwng £100,000 a £250,000 y flwyddyn. Mae'r costau hyn yn dibynnu ar nifer y staff arbenigol a ddefnyddir yn ystod yr arolwg.
Adroddiadau gan Weinidogion Cymru (adran 6)	Mae hyn yn dibynnu ar y fformat a fabwysiedir gan Weinidogion Cymru, ond ni ddylai fod yn feichus a dylai cyllidebau presennol Llywodraeth y Cynulliad dalu'r costau.
Recriwtio ar gyfer darparu dŵr yfed am ddim (adran 8)	Darparwyd oeryddion dŵr am ddim i 384 o ysgolion Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru am gost o £225,000. Mewn theori, byddai darparu oeryddion dŵr i'r 1,500 o ysgolion eraill Cymru yn costio tua £0.9 miliwn, ond yn ymarferol bydd rhai o'r ysgolion hyn eisoes yn darparu dŵr am ddim. Mae hwn hefyd yn un o bolisïau *Blas am Oes.*
Hyrwyddo prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill (adran 9)	Mae llawer o waith eisoes wedi'i gynllunio fel rhan o'r *Cynllun Gweithredu Blas am Oes*, a bydd y cyllidebau presennol yn talu am hyn. Er enghraifft, ceir ymrwymiad i hyrwyddo ac annog disgyblion i fwyta prydau ysgol drwy ymgyrch farchnata genedlaethol a lleol. Mae'r costau'n dibynnu ar faint o waith a wneir. Er enghraifft, gallai hyn amrywio o ddosbarthu posteri,

	rhannu arferion da a rhoi canllawiau i ysgolion ar gyfer ymgyrch farchnata genedlaethol neu waith adnewyddu sylweddol i ystafelloedd bwyta a chyfleusterau cegin. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad grant refeniw penodol o £1.3 miliwn i awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2007 er mwyn prynu offer a chyfarpar cegin/ystafelloedd bwyta ar gyfer ysgolion. Bydd rhywfaint o waith hyrwyddo'n golygu mân gostau'n unig neu'n cael ei ariannu drwy sicrhau arbedion mewn mannau eraill.
Awdurdodau Addysg Lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim (adran 9(2))	Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n ymchwilio er mwyn canfod y costau hyn.
Awdurdodau Addysg Lleol i ddiogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim (adran 10)	Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi cytuno ar gostau cyflwyno system electronig i benderfynu pwy sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim. Dywed Llywodraeth y Cynulliad hefyd y bydd yn ystyried ac yn datblygu systemau lle na fydd angen defnyddio arian parod, a dylid cael cysylltiad rhwng hyn a'r gwaith ar seilwaith y cerdyn call cenedlaethol i ddinasyddion.